

DETHOLIAD ALLAN O 'TAIR CHWAER', Anton Chekhov

Detholiad allan o Act 1

Yn ymgorffori arddull Berkoff

Thema: Breuddwydion, Gobeithion ac Unigedd

Mae'r olygfa'n agor gydag ensemble ar y llwyfan yn cynnwys y 3 chwaer.

Bydd yr ensemble yn dynwared sŵn cloc yn tician - Tic Toc etc.

Bydd y 3 chwaer ar wahân o fewn strwythur barrau dringo. Bydd un ar ochr dde'r llwyfan yn y blaen, un ynghanol cefn y llwyfan ac un ar ochr chwith y llwyfan yn y blaen.

O fewn y strwythurau hyn bydd y chwiorydd yn cyflawni'r canlynol:

Mae Irina yn eistedd wrth fwrdd yn chwarae 'patience'.

Mae Masha yn eistedd yn darllen llyfr.

Mae Olga yn cerdded nôl ac ymlaen yn marcio papurau.

Mae'r tair chwaer yn gorwneud eu symudiadau.

Maen nhw'n ail adrodd y symudiadau hyn dro ar ôl tro.

YMARFERWR:

Gwaith ensemble.

Meim wedi ei or-wneud ac yn arddulliedig

Ail adrodd

Mae'r syniad hwn o wneud pethau ar ben eu hunain a bod y tu fewn i'r barrau dringo yn adlewyrchu unigedd y tair chwaer o'r cychwyn cyntaf

Bydd y chwiorydd yn llefaru'r brawddegau canlynol o'r tu fewn i'r barrau dringo.

OLGA

Mae'n flwyddyn union ers i'n tad farw. Blwyddyn yn ôl i heddiw-Mai'r pumed – roedd ar dy ddiwrnod nawdd sant di, Irina. Roedd hi'n ddiwrnod oer, fe gawson ni eira. Fe gredais i na fyddwn i byth yn ei oroesi, a tithau'n gorwedd mewn llewyg. Ond nawr mae blwyddyn wedi mynd heibio, ac fe allwn ni feddwl amdano eto yn ddigon tawel. Rwyd ti nôl mewn gwyn, dy wyneb yn loyw...

TESTUN GWREIDDIOL

Mae'r ensemble yn lleisio sŵn y cloc yn taro deuddeg.

YMARFERWR

Gwaith ensemble

Roedd y cloc yn taro bryd hynny hefyd.

TESTUN GWREIDDIOL

.....	GOLYGU TESTUN
IRINA Pam rhygnu ar yr un hen dant? OLGA Mae'n gynnes heddiw. Fe allwn ni gael y ffenestri'n llydan agored. Ond dydy'r coed bedw ddim allan eto. Fe gafodd ein tad ei frigâd a gadael gyda ni am Foscow un mlynedd ar ddeg yn ôl, ac rwy'n cofio'n dda sut roedd Moscow'r adeg hon o'r flwyddyn, ar ddechrau mis Mai. Fe fyddai popeth wedi blodeuo eisoes, byddai popeth yn gynnes, yr haul yn gwenu ar bopeth.	TESTUN GWREIDDIOL
.....	GOLYGU TESTUN
Saib Rwy yn yr ysgol bob dydd, ac yna'n rhoi gwersi gweddill y prynhawn, ac mae hynny o hyd yn arwain at ben tost parhaus, ac fe fydda i'n dechrau hel meddyliau yn union fel petawn i'n hen wraig yn barod. Ac fel mater o ffaith y pedair blynedd diwethaf ers i mi fod yn dysgu rwy'n teimlo fod fy ieuencid a'm hegni yn fy ngadael dydd wrth ddydd, diferyn wrth ddiferyn, a'r unig beth sy'n tyfu, yr unig beth sy'n cryfhau, yw un freuddwyd unig.... IRINA I fynd i Foscow. Gwerthu'r tŷ, rhoi'r gorau i bopeth yma a mynd i ffwrdd i Foscow...	TESTUN GWREIDDIOL
OLGA IRINA MASHA IE! I Foscow, cyn gynted ag y gallwn ni! <i>Maen nhw'n gorddweud y geiriau</i> le! I Foscow, cyn gynted ag y gallwn ni!	YMARFERWR Ail adrodd gan ddefnyddio geiriau o'r testun gwreiddiol
OLGA Mae gen i freuddwyd! IRINA Mae gen i freuddwyd!	TESTUN YCHWANEGOL

MASHA Mae gen i freuddwyd! OLGA/MASHA/IRINA Moscow!	TESTUN YCHWANEGOL
<i>Fe fyddan nhw'n dangos eu hawydd i adael eu lle cyfyng trwy symudiadau'r corff ac yn y pendraw yn dringo allan o'r barrau dringo i ganol y llwyfan.</i> <i>Gyda'r 3 chwaer bydd yr ensemble nawr yn meimio taith trên i Foscow.</i>	YMARFERWR Gwaith ensemble Meim wedi ei or wneud ac yn arddulliedig
VOICE Y trên sy'n cyrraedd nawr i blatfform 2 yw.... .. (pylu'n araf)	
Bydd aelodau'r ensemble yn actio fel seddau ar y trên. Bydd y chwiorydd yn eistedd ar y seddau hyn ac yna bydd symudiadau ac effeithiau sain i ddarlunio'r daith trên i Foscow.	YMARFERWR Gwaith ensemble Meim
<i>Wrth gyrraedd Moscow bydd yr ensemble yn symud o gwmpas y llwyfan fel petaent yn symud o gwmpas dinas Moscow. Croesewir y chwiorydd i Foscow. Dangosir hyn mewn symudiadau gor ddramatig a lleisiau uchel.</i> <i>Yn ninas Moscow.</i> <i>Cacoffoni o fywyd dinas.</i> <i>Bydd nifer o'r ensemble yn croesawu'r chwiorydd drosodd a throsodd - Croeso i Foscow - yn cael ei ail adrodd sawl gwaith.</i> <i>Bydd yr ensemble yn dawnsio Dawns Werin o Rwsia- gan feimio'r offerynnau (feiolinau) ac fe fyddan nhw hefyd yn defnyddio'u lleisiau i gyfleu'r gerddoriaeth.</i>	YMARFERWR Ensemble playing Exaggerated and stylized movement Exaggerated vocal work
<i>Mae hyn i gyfleu'r hapusrwydd mae'r chwiorydd yn ei gysylltu â Moscow</i>	
<i>Yn sydyn bydd hyn i gyd yn newid a bydd rhai o'r ensemble yn gwisgo masgiau grotesg ac yn bygwth y tair chwaer.</i> <i>Bydd y cymeriadau sy'n gwisgo'r masgiau yn gwneud synau bygythiol gyda'u lleisiau ac yn defnyddio'u cyrff i ddychryn y chwiorydd</i>	YMARFERWR Gwaith ensemble Meim Defnyddio masgiau

<i>Bydd y chwiorydd yn defnyddio'u cyrff i ymateb i'r bygythiadau.</i>	YMARFERWR Gwaith ensemble Meim Defnyddio masgiau
<i>Mae hyn i gyfleu nad yw'r freuddwyd oedd ganddynt o Foscow llawn hapusrwydd fel y bu bellach yn wir</i> <i>Mae'r ensemble yn diflannu ac mae'r chwiorydd yn dychwelyd i'w barrau dringo gwahanol fel yr oeddynt ar ddechrau'r olygfa.</i> <i>Mae Irina yn eistedd wrth fwrdd yn chwarae patience</i> <i>Mae Masha yn eistedd yn darllen llyfr</i> <i>Mae Olga yn cerdded nôl ac ymlaen yn marcio papurau.</i> <i>Mae'r tair chwaer yn gorwneud eu symudiadau.</i> <i>Maen nhw'n ail adrodd y symudiadau hyn dro ar ôl tro.</i> <i>Mae VERSHININ a TUSENBACH yn dod i mewn i'r gofod. Bydd y chwiorydd yn ymateb o'r tu fewn i'r barrau dringo.</i>	
VERSHININ Gadewch i fi gyflwyno fy hun- Vershinin. Mae'n hyfryd bod gyda chi o'r diwedd. Ond rydych chi wedi newid cymaint! Diwedd mawr! TUSENBACH Daw'r cynol o Foscow. IRINA O Foscow? Rydych chi'n dod o Foscow? VERSHININ Ydw wir, roedd eich tad yn gadlywydd magnelfa yno, roeddwn i'n gadlywydd magnelfa yno; roedden ni yn yr un frigâd.	TESTUN GWREIDDIOL
.....	GOLYGU TESTUN
IRINA O Foscow? Rydych chi'n dod o Foscow? MASHA O Foscow? Rydych chi'n dod o Foscow? OLGA O Foscow? Rydych chi'n dod o Foscow?	YMARFERWR Ail adrodd gan ddefnyddio geiriau o'r testun gwreiddiol

IRINA/MASHA/OLGA

O Foscow? Rydych chi'n dod o Foscow?

VERSHININ

Ydw. Roeddwn i'n y brifysgol ym Moscow ac fe ddechreuws i fy ngyrfa ym Moscow...

IRINA

Rydych chi'n dod o FoscowMae'r peth yn hollol annisgwyl!

OLGA

Rydyn ni'n symud yno, chi'n gweld.

TESTUN GWREIDDIOL

.....

GOLYGU TESTUN

IRINA

Rydyn ni'n credu wir y byddwn ni yno erbyn yr hydref.

Ein tref enedigol ni yw hi- yno y'n ganwyd ni

A'r unig beth sy wedi tyfu, yr unig beth sy'n cryfhau ydyw un freuddwyd unig...

YMARFERWR

Ail adrodd geiriau

IRINA

I fynd i Foscow. Gwerthu'r tŷ, rhoi'r gorau i bopeth yma a mynd i ffwrdd i Foscow

OLGA

IRINA

MASHA

Maen nhw'n symud gyda'i gilydd i flaen y llwyfan mewn dull robotig ac yn llefaru'r geiriau hyn yn uniongyrchol wrth y gynulleidfa.

IE! I Foscow, cyn gynted ag y gallwn ni!

Maen nhw'n gorddweud y geiriau

IE! I FOSCOW CYN GYNTED AG Y GALLWN NI!

YMARFERWR

Symudiad arddulliedig-robotig

Mae symudiadau eu cyrff yn cyfleu eu hawydd i ddychwelyd i Foscow.

OLGA

Mae gen i freuddwyd!

YMARFERWR

ail adrodd symudiadau blaenorol

<i>IRINA</i> <i>Mae gen i freuddwyd!</i> <i>MASHA</i> <i>Mae gen i freuddwyd!</i> <i>OLGA/MASHA/IRINA</i> <i>Moscow!</i>	YMARFERWR ail adrodd symudiadau blaenorol
<i>Maen nhw'n dringo allan o'u barrau dringo fel ar gychwyn yr olygfa</i> <i>Ail adroddir y symudiadau blaenorol o symud i Foscow- y daith yn y trê- y cyrraedd yno- y croeso- y ddawns werin- y creaduriaid grotesg- ond y tro hwn bydd y cyfan yn gyflymach.</i> <i>Yna bydd popeth yn stopio'n sydyn ac fe awn ni nôl unwaith eto i'r dechrau.</i>	YMARFERWR Ail adrodd defnydd blaenorol o waith lleisiol a symudiadau wedi eu gor wneud. Defnyddio masgiau Gwaith ensemble
<i>Unwaith eto y tu fewn i'w barrau dringo ar wahân:.</i> <i>Mae Irina yn eistedd wrth fwrdd yn chwarae 'patience'.</i> <i>Mae Masha yn eistedd yn darllen llyfr.</i> <i>Mae Olga yn cerdded nôl ac ymlaen yn marcio papurau.</i> <i>Mae'r tair chwaer yn gorwneud eu symudiadau.</i> <i>Maen nhw'n ail adrodd y symudiadau hyn dro ar ôl tro</i>	YMARFERWR Ail adrodd symudiadau arddulliedig blaenorol fel ar gychwyn yr olygfa